Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.16 Ffynonellau ariannu ar gyfer phrosiectau newid yr hinsawdd

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi manylion am ffynonellau cyllid posibl i fudiadau'r trydydd sector sy'n ymwneud â phrosiectau newid yn yr hinsawdd.

Bwriedir i'r cofnodion yn y rhestr hon fod yn ganllaw cyffredinol yn unig - dylech gysylltu bod amser â'r ymddiriedolaeth neu fudiad priodol i gael rhagor o wybodaeth. Nid ydym yn honni ei bod yn rhestr gyflawn.

Gwobrau Ashden ar gyfer Ynni Adnewyddadwy

Mae'r gwobrau'n cydnabod prosiectau ynni adnewyddadwy neilltuol yn y DU a'r byd datblygol. Eu nod yw hybu defnydd eang o ynni lleol, cynaliadwy oherwydd y buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a all ddod yn ei sgil. Gall y gwobrau amrywio rhwng £10,000 a £40,000, a dyfernir tair gwobr yn y DU,sef: Busnes, Awdurdodau Lleol ac Elusennau

Cysylltwch â:
The Ashden Awards for Sustainable Energy
Allington House, 150 Victoria Street, Llundain, SW1E 5AE
Ffôn: 020 7410 0330
www.ashdenawards.org

Rhaglen Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Gymunedol (CSREG)

Mae'r arian ar gael i helpu mudiadau cymunedol yng Nghymru i fuddsoddi mewn technoleg newydd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy glân, i hybu twf busnesau cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd, yn seiliedig ar gynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol. Gellir defnyddio'r arian hefyd i gynnal astudiaethau dichonolrwydd ar gyfer prosiectau adnewyddadwy posibl. Mae grantiau gwerth hyd at £30,000 y prosiect ar gael.

Cysylltwch â:
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni,
Rhaglen CSREG, 1 Caspian Point, Ffordd Caspian, Bae Caerdydd, CF10 4DQ
Ffôn: 020 2047 5982
steve.arnold@est.org.uk
www.energysavingtrust.org.uk

Rhaglen Fuddsoddi Cylch (CIP)

Nod y rhaglen yw darparu cymorth ariannol a chymorth arall, gan gynnwys grantiau a benthyciadau, i aelodau llawn Cylch i'w galluogi i wella'u cynaliadwyedd ariannol. Mae'n cynnig cymorth i leihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu a gweithgarwch compostio a hyfforddiant/ymgynghoriadau. Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael.

Cysylltwch â:
Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru
Ffôn: 029 2064 9750
mail@cylch.org.uk
www.cylch.org

Cronfa Ynni Cynaliadwy E.ON

Mae hon yn cynnig cymorth i brosiectau ynni cymunedol sydd un ai'n arwain at gynhyrchu ynni o ffynhonnell gynaliadwy neu sy'n lleihau faint o ynni a ddefnyddir gan fudiad cymunedol. Rhaid defnyddio'r arian i brynu a defnyddio offer cyfalaf, mesur ffisegol a chostau cysylltiedig uniongyrchol yn unig. Mae grantiau gwerth hyd at £20,000 ar gael, ar gyfer hyd at 90% o gost y prosiectau.

Cysylltwch â:
Community Relations
E.ON UK, Newstead Court, Little Oak Drive, Sherwood Park
Annesley, Notts, NG15 0DR
source@eon-uk.com
www.eon-uk.com

Ymddiriedolaeth Elusennol Partneriaeth Eaga

Grant i ariannu cynlluniau sy'n ymwneud â lleddfu tlodi tanwydd a diogelu ac amddiffyn iechyd drwy hybu defnydd effeithlon o ynni. Nid oes isafswm nac uchafswm grant. Mae prosiectau cymwys yn gynnwys datblygu arferion da; casglu a dadansoddi data; ymchwil sy'n gysylltiedig â pholisi; astudiaethau maes manwl a monitro.

Cysylltwch â:
Dr Naomi Brown
Trust Manager, eaga Charitable Trust
23 Macadam Gardens
Penrith CA11 9HS
Ffôn: 01768 210220
eagact@aol.com
www.eagacharitabletrust.org

Grant Ôl Troed Ecolegol

Mae grantiau ar gael i helpu i leihau ôl troed ecolegol Cymru ac i hybu datblygu cynaliadwy drwy dechnegau sy'n ymwybodol o'r amgylchedd sy'n sail i bolisïau a rhaglenni. Bydd grantiau'n cael eu dyfarnu ar gyfer hyd at 75% o gyfanswm costau'r prosiect, hyd at uchafswm o £5,000. Disgwylir i ymgeiswyr sicrhau o leiaf 25% o gyfanswm y costau o'u hadnoddau eu hunain neu ffynonellau eraill.

Cysylltwch ag:
Ysgrifenyddiaeth WWF Cymru
Ffôn: 02920 454970
cymru@wwf.org.uk
www.footprintwales.org

Benthyciadau Effeithlonrwydd Ynni

Nod benthyciadau effeithlonrwydd yr Ymddiriedolaeth Garbon i fusnesau yw ysgogi busnesau bach a chanolig y DU i roi mwy o bwyslais ar effeithlonrwydd ynni. Mae arian ar gael tuag at y gost o brynu offer sy'n arwain at ostwng allyriadau carbon. Rhaid i gwmnïau fod wedi bod yn masnachu am o leiaf 12 mis. Mae benthyciadau rhwng £3,000 a £100,000 ar gael yn awr. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon hefyd yn darparu gwybodaeth, cyngor a help ymarferol yn ogystal â chymorth ariannol i hybu gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni. Ffoniwch 0800 085 2005.

Cysylltwch â:
The Carbon Trust
6th Floor, 5 New Street Square
Llundain EC4A 3BF
Ffôn: 0800 085 2005
customercentre@carbontrust.co.uk
www.carbontrust.co.uk

Amgylchedd Cymru

Mae Amgylchedd Cymru yn bartneriaeth o fudiadau yn y sector gwirfoddol neu'r trydydd sector a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy drwy ddarparu cymorth a chyllid i brosiectau amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar wirfoddolwyr. Y partneriaid creiddiol sy'n rhan o'r fenter yw Gwarchodwyr Cefn Gwlad, Canolfan Eco Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru, Cylch, WCVA, Groundwork Wales a Cynnal Cymru-Sustain Wales.

Cysylltwch â:
Amgylchedd Cymru., Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH
Ffôn: 029 2043 1727
info@environment-wales.org
www.amgylchedd-cymru.org

Yr Ymddiriedolaeth Ynni Gwyrdd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn hybu datblygiad ffynonellau newydd o ynni adnewyddadwy yn y DU a fydd yn helpu i leihau ei dibyniaeth ar danwydd ffosil ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y prosiectau a gefnogir yn hybu ynni adnewyddadwy, h.y. byddant yn arwain at gynhyrchu trydan neu wres adnewyddadwy, ac yn cynorthwyo cymunedau drwy addysg ac ymgysylltu. Gall yr Ymddiriedolaeth gyfrannu hyd at 50% o gostau prosiect, hyd at uchafswm o £25,000, er bydd y rhan fwyaf o brosiectau'n derbyn £10,000.

Cysylltwch â:
The Secretary,
ScottishPower Green Energy Trust, Business & Community Relations,
3rd Floor Main Building, Cathcart Business Park, Spean Street, Glasgow, G44 4BE
Ffôn: 0141 568 3492
greenenergytrust@scottishpower.com
www.scottishpowergreentrust.co.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol Jephcott

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dyfarnu grantiau i elusennau cofrestredig a mudiadau cyfansoddiadol yn y DU. Mae grantiau ar gael i gynorthwyo mudiadau i sefydlu eu hunain, neu i alluogi prosiectau i gymryd cam pwysig ymlaen a fydd yn gwneud gwahaniaeth mewn un o bedair prif flaenoriaeth: yr Amgylchedd Naturiol, Addysg; Iechyd a Rheoli'r Boblogaeth. Mae grantiau gwerth rhwng £2,000 a £10,000 ar gael. Mae'r ymddiriedolwyr yn cwrdd i ystyried ceisiadau ym mis Ebrill a Hydref.

Cysylltwch â:
The Administrator
The Jephcott Charitable Trust, Cotley, Streatham Rise
Caerwysg/Exeter, EX4 4PE
www.jephcottcharitabletrust.org.uk

Ymddiriedolaeth Naturesave

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi grwpiau amgylcheddol a chadwraethol yn y DU. Mae grantiau ar gael i ariannu prosiectau sy'n ymwneud â phroblemau amgylcheddol a / neu gadwraethol penodol, ac sy'n annog mabwysiadu datblygu cynaliadwy ar lefel fwy masnachol. Mae grantiau sbarduno ar gael i helpu i sefydlu prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol.

Cysylltwch â:
The Naturesave Trust
58 Fore Street, Totnes, Dyfnaint TQ9 5RU
mail@naturesave.co.uk
www.naturesave.co.uk

Sefydliad Oak

Mae'r Sefydliad yn rhoi sylw i faterion byd-eang, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn enwedig rhai sy'n cael effaith ar fywydau pobl ddifreintiedig, drwy amrywiaeth o raglenni a meysydd blaenoriaeth megis Newid yn yr Hinsawdd. Mae ymrwymiad ariannol amryw o ffynonellau gwahanol yn ofyniad penodol.

Cysylltwch â:
Oak Philanthropy (UK) Limited
4th Floor, 22 Upper Brook Street, Llundain, W1K 7PZ
ihrp@oakfnd.org
www.oakfnd.org

Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi amrywiaeth eang o fuddiannau gan gynnwys prosiectau amgylcheddol, fodd bynnag, anaml iawn y bydd ceisiadau digymell yn llwyddiannus, ond gelir eu hannog drwy gadw proffil uchel.

Cysylltwch â:
The Sainsbury Family Charitable Trusts
Allington House, 1st Floor, 150 Victoria Street, Llundain, SW1E 5AE
Ffôn: 0207 410 0330
www.sfct.org.uk

Ymddiriedolaeth Pobl Ynni Scottish Power

Cymorth i fudiadau a grwpiau'r trydydd sector ledled Prydain tuag at brosiectau sy'n helpu grwpiau o bobl sy'n profi tlodi tanwydd neu sy'n agored i niwed.

Cysylltwch â:
The ScottishPower Energy People Trust
ScottishPower, Cathcart Business Park, 144 Spean Street
Glasgow, G44 4BE
Ffôn: 0141 568 3492
enquiries@energypeopletrust.co.uk
www.energypeopletrust.com

Cronfa Datblygu Cynaliadwy (Cymru)

Grantiau i ddatblygu a rhoi prawf ar ffyrdd newydd o gyflawni ffordd fwy cynaliadwy o fyw mewn Ardaloedd Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yng Nghymru. Mae'r gronfa'n agored i fudiadau trydydd sector, cyhoeddus neu breifat yn y tri Pharc Cenedlaethol a'r pum AHNE yng Nghymru.

Cysylltwch â:
Lindsey Powles
Yr Amgylchedd, Cadwraeth a Rheoli
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3169
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/susdevfund/?skip=1&lang=cy

Cyllid Cynaliadwy Cymru

Mae'r wefan yn rhoi arweiniad a chyngor ymarferol i fudiadau sydd am ddatblygu agwedd entrepreneuraidd tuag at gyllid er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae'n cynnig arweiniad ar y gwahanol ffynonellau cyllid sydd ar gael i'r trydydd sector yng Nghymru a'r dulliau a'r sgiliau sydd eu hangen i ddod o hyd i'r ffynonellau hyn, manteisio arnynt a'u rheoli. Mae hefyd yn rhoi manylion cyrsiau hyfforddi perthnasol, astudiaethau achos o fudiadau sydd eisoes yn gweithio tuag at gynaliadwyedd, ffynonellau cymorth eraill a'r cyfle i gofrestru ar gyfer Newyddion Nawdd, y cylchlythyr electronig sydd ar gael am ddim bob mis.

Cyswllt:
Ffôn: 0800 2888 329
sfc@wcva.org.uk

Amgylchedd Cymru: Cynllun Grantiau Cefnogi Byw yn Gynaliadwy

Nod y Cynllun Grant Cefnogi Byw'n Gynaliadwy yw ysgogi newidiadau hirdymor mewn ffordd o fyw a fydd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru a helpu mudiadau a chymunedau i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.Fe'i cyflenwir gan Amgylchedd Cymru a'i ariannu gan Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr Llywodraeth Cymru.

Mae'n agored i fudiadau o bob sector. Gall gyllido grantiau o hyd at £35,000

Gall y grantiau dalu am ddylunio, darparu a gwerthuso'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau ac offer y prosiect, cyfieithu, argraffu, ymgynghorwyd a chyngor arbenigol, llogi lleoliad, treuliau gwirfoddolwyr, trafnidiaeth ayb. Gall y grant dalu hefyd am amser staff ar yr amod nad yw eisoes yn cael ei dalu gan drefniant ariannu arall.

Mae 3 cham yn perthyn i'r brif ffrwd grantiau. Caiff ymgeiswyr ymuno ar unrhyw gam yn ôl eu hamgylchiadau.

Cam 1: Grantiau Datblygu Prosiect:
I helpu ymgeiswyr i archwilio meysydd lle gallent weithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac adnabod y dulliau, yr offer a'r gyllideb y bydd eu hangen arnynt i gyflawni'r effaith fwyaf.

Cam 2: Grantiau Gweithredu:
I helpu ymgeiswyr i dreialu prosiectau sydd wedi'u hanelu at newid ymddygiadau penodol neu ddewisiadau ffordd o fyw a fydd yn mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd.

Cam 3: Grantiau Dyblygu:
Ar gyfer ymgeiswyr sydd eisoes wedi treialu un prosiect newid ymddygiad yn llwyddiannus er mwyn ei gyflwyno mewn ardaloedd eraill neu ar raddfa fwy.

Hyfforddiant a Chanfod ffeithiau:
I fynychu cyrsiau hyfforddi, defnyddio hyfforddwyr neu ymgynghorwyr allanol, neu gynnal digwyddiadau canfod ffeithiau perthnasol.

Am fwy o fanylion, gwelwch
http://www.environment-wales.org/grantiau/cefnogi_byw_yn_gynaliadwy/789

Sefydliad Waterloo

Mae'r Sefydliad yn dyfarnu grantiau i fudiadau yn y DU ar gyfer prosiectau sy'n helpu ar raddfa fyd-eang, yn enwedig mewn meysydd sy'n ymwneud â'r hinsawdd a dosbarthiad cyfoeth.

Cysylltwch â:
Sefydliad Waterloo
46-48 Heol Caerdydd, Llandaf, Caerdydd, CF5 2DT
Ffôn: 02920 838980
info@waterloofoundation.org.uk
www.waterloofoundation.org.uk

Cynllun Busnes Ynni Pren

Grantiau ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaCh) a grwpiau cymunedol sy'n gosod systemau gwresogi â thanwydd coed ynghyd â chefnogaeth a chymorth i sefydlu busnesau tanwydd coed glân yng Nghymru.

Cynllun grant cyfalaf gwerth £17 miliwn yw'r Cynllun Busnes Ynni Pren (WEBS). Mae'n cael cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), a bydd ar gael tan 2013. Daw £7.9 miliwn o'r cyllid o ERDF a'r gweddill o ffynonellau cyllid cyfatebol amrywiol.

Mae hwn yn brosiect ar gyfer holl ardaloedd Cymru, er bod gwahanol lefelau o gymorth yn berthnasol mewn ardaloedd Cydgyfeirio ac ardaloedd Cystadleurwydd.

Ei brif nod yw rhoi cymorth grant cyfalaf i ficrofusnesau, BBaCh a mentrau cymdeithasol er mwyn datblygu'r farchnad gwres coed cynaliadwy ac adnewyddadwy ar hyd a lled Cymru.

Mae tri math o brosiect yn gymwys ar gyfer cymorth grant, sef

- Systemau gwresogi â thanwydd coed
- Defnyddio coed i gynhyrchu trydan ar raddfa fechan – Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP)
- Busnesau cyflenwi tanwydd coed – hwyluso datblygiad offer a chadwyni cyflenwi tanwydd o ansawdd uchel.

Cysylltwch â

Mike Pitcher
Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR
Ffôn: 0300 068 0076
mike.pitcher@forestry.gsi.gov.uk
www.forestry.gov.uk/wales

Gwybodaeth bellach

Gweler y Daflen Wybodaeth
7.4.10 Ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau amgylcheddol
am ragor o wybodaeth amgylcheddol gyffredinol.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a geir yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Ni ddylai gymryd lle cyngor proffesiynol ac ni alwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a all godi o ganlyniad i berson yn gweithredu neu'n peidio gweithredu ar sail yr wybodaeth a geir ynddi.